Cofnodion cyfarfod y **PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU** a gynhaliwyd o bell drwy fideogynhadledd
**ddydd Mercher, 14 Gorffennaf 2021**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Lynford Thomas (Cadeirydd), John Adams-Lewis, Bryan Davies, Ceredig Davies, Gethin Davies, Meirion Davies, Odwyn Davies, Peter Davies MBE, Rhodri Davies, Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Dai Mason, Rowland Rees-Evans a Wyn Thomas

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Clive Davies

**Swyddogion yn bresennol:** Mr Russell Hughes Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio, Mr Alan Davies, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cynllunio, Mr Jonathan Eirug – Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu'r Gogledd, Mrs Catrin Newbold, Rheolwr Gwasanaeth – Rheoli Datblygu, Mrs Gwennan Jenkins, Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu'r De, Mrs Ffion Lloyd – Cyfreithiwr, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd, a Mrs Dana Jones, Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Safonau.

(10:00am –11:00am)

**1** **Ymddiheuriadau**
Roedd y Cynghorwyr Ifan Davies, Paul Hinge, Catherine Hughes, Gwyn James a Lyndon Lloyd MBE wedi ymddiheuro am nad oedd modd iddynt ddod i'r cyfarfod.

**2** **Materion Personol**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cynhaliwyd munud o dawelwch er cof am yr Arglwydd Elystan Morgan a oedd wedi marw'n ddiweddar

**3** **Datgelu buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu**
Dim.

**4** **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2021**
PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2021 yn gywir.

**Materion yn codi**
Dim.

**5** **Ystyried ceisiadau cynllunio a ohiriwyd mewn Cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor**
Dim.

**6** **Ceisiadau Statudol, Llywodraeth Leol, Hysbysebion a Datblygu**

Trafodwyd adroddiad Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ynghylch ceisiadau datblygu, hysbysebu, statudol a'r awdurdod lleol:-

A210230 Newid defnydd o C3 (annedd) i C4 (tŷ amlfeddiannaeth), 8 Bythynnod Gogerddan, Ffordd Penglais, Aberystwyth

**CYMERADWYO'R** cais yn ddibynnol ar amodau.

---

A210283 Codi dwy annedd, Lleiniau 16 ac 17 Clos y Gwyddil, y Ferwig, Aberteifi

**CYMERADWYO'R** cais yn ddibynnol ar amodau ac yn ddibynnol ar gytundeb cyfreithiol Adran 106 a fydd yn sicrhau swm gohiriedig o 10% yn gyfraniad at ddarparu tai fforddiadwy yn y sir, yn unol â darpariaeth polisi S05 y Cynllun Datblygu Lleol, gyda'r gwaith i gychwyn cyn pen 18 mis ar ôl dyddiad rhoi'r caniatâd.

Nid oedd yr Aelodau'n cytuno ag argymhelliad y swyddogion ac roeddent yn tybio bod modd cymeradwyo'r cais am y rhesymau a ganlyn:-

**7** **Ceisiadau Cynllunio y deliwyd â hwy o dan awdurdod dirprwyedig**

PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o geisiadau cynllunio y bu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw.

**8** **Apeliadau**

CYTUNWYD i nodi'r apeliadau cynllunio a oedd wedi dod i law.

**9** **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 28 Gorffennaf 2021**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**________________